# Tasg 1

**(Heriol, sbardun 1)**

1. Darllenwch y gerdd fwy nag un gwaith yn uchel. Wedyn, edrychwch ar bob 'pennill' yn ei dro.

2. Yn y pennill cyntaf, y **ddelwedd** gyntaf sydd gan Iwan Llwyd yw bod cariad yn gadwyn. Beth yw'r **ail** ddelwedd? Pa eiriau sy'n dangos hyn i chi? Ydy'r ddelwedd hon yn effeithiol? Darllenwch ddwy linell olaf y pennill cyntaf eto – beth maen nhw'n ei awgrymu am y cariad rhwng y ddau berson?

3. Pa deimlad mae'r bardd yn ei fynegi yn yr ail bennill? Pam mae'r bardd wedi dewis y gair 'rhwygo' yn yr ail linell?

4. Sut mae'r trydydd pennill yn **cyferbynnu** â'r ail bennill?

5. Beth mae'r bardd yn penderfynu ei wneud yn y pennill olaf?

6. Chwiliwch am enghreifftiau o'r canlynol:

   - cymhariaeth
   - cyflythreniad
   - trosiad